Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

**Y Pwyllgor Cynaliadwyedd**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

19 Chwefror 2010

Annwyl Gyfaill,

Mae Pwyllgor Cynaliadwyedd y Cynulliad yn cynnal ymchwiliad i Randiroedd yng Nghymru.

Cylch gorchwyl yr ymchwiliad yw:

Archwilio'r ffyrdd y gall Llywodraeth Cymru gynorthwyo a darparu cyfleoedd i feithrin y diddordeb cynyddol mewn rhandiroedd a garddio cymunedol, ac archwilio'r ffyrdd y gallai'r gweithgareddau hyn gynnig manteision ehangach.

Bydd yr ymchwiliad yn ystyried y canlynol:

**1.** Y galw am safleoedd rhandiroedd yng Nghymru a'r safleoedd sydd ar gael (yn rhai cyhoeddus a phreifat);

**2.** Y rhwystrau / cyfyngiadau (i ddefnyddwyr a darparwyr);

**3.** Dulliau arloesol o ddarparu tir ar gyfer rhandiroedd;

**4.** Tystiolaeth o'r manteision ehangach y gall deiliad rhandir eu cael o arddio rhandir a'r cyfleoedd sydd ar gael i ddeiliad rhandir (er enghraifft manteision iechyd, yr amgylchedd, y gymuned, cludo cynnyrch i'r farchnad);

**5.** Yr angen i Lywodraeth Cymru ymyrryd ac awgrymiadau o ran ym mha feysydd y dylai ymyrryd.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 20898506
E-bost / Email: sustainability.comm@wales.gsi.gov.uk

Hoffai'r Pwyllgor glywed barn cynifer o bobl â phosibl am y pwyntiau uchod er mwyn helpu i ddeall pa mor effeithiol yw mentrau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

Dylech gyflwyno unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig erbyn **1 Ebrill 2010,** i Meriel Singleton yn:

Sustainability.comm@Wales.gsi.gov.uk

neu at:

Y Pwyllgor Cynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad
Swyddfeydd y Cynulliad
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Gellir cael rhagor o wybodaeth am ymchwiliad y Pwyllgor ar ein gwefan yn:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third-assem/bus-committees-third-sc-home.htm

Yn gywir



**Mike German**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cynaliadwyedd**

**Sylwer:**

Mae’n arferol i’r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i ymchwiliad/bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol sy’n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth y DU, efallai y bydd angen datgelu’r wybodaeth a ddarperir gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw’n addas i’w datgelu i’r cyhoedd yn eich barn chi, eich penderfyniad chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.